

*Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin**Disgrifiad o'r modiwl*

Mae'r modiwl athroniaeth eang hwn yn canolbwyntio ar bum pwnc: gwirionedd ffuglen, rhyfel, rheswm a gweithredu, gwerth bywyd, gwybodaeth a rheswm. Pam y mae pobl yn chwilio am gelf sy'n gwneud iddynt grio? Mewn rhyfel, a oes gwahaniaeth moesol clir rhwng lladd ymladdwyr a lladd pobl nad ydynt yn ymladdwyr? A oes y fath beth â 'cyfrifoldeb ar y cyd'? Beth y gallai dweud bod bywyd yn sanctaidd ei olygu? A yw gwyddoniaeth yn rhesymegol? Bydd pum llyfr y modiwl yn galluogi'r myfyrwyr i archwilio'r cwestiynau hyn yn fanwl, gan adael lle yn y modiwl i fyfyrion ac astudio'n annibynnol. Bydd y modiwl yn adeiladu ar y wybodaeth a'r sgiliau a addysgwyd yn ein modiwl cyflwyniad i athroniaeth (Lefel 2), a bydd yn datblygu gallu'r myfyrwyr i gymryd rhan mewn dadleuon cymhleth a dadleuol weithiau, astudio a gweithio'n annibynnol, a chyfleu eu syniadau yn effeithiol drwy draethodau a chyflwyniad cryno. Ceir asesiad ar ddiwedd y modiwl ar ffurf traethawd hir.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd israddedig (ail ddsbarth uwch neu'n uwch) mewn athroniaeth neu gymhwyster ag elfen athronyddol sylweddol; neu gymhwyster ôl-raddedig mewn athroniaeth
- profiad o addysgu athroniaeth (gan gynnwys athroniaeth yn y traddodiad Eingl-Americanaidd) ar lefel gradd mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol: estheteg, moeseg, athroniaeth wleidyddol, athroniaeth y meddwl, epistemoleg
- y gallu i hwyluso trafodaeth athronyddol, gan gynnwys trafod materion dadleuol
- y gallu i raddio aseiniadau ar lefel gradd a rhoi adborth adeiladol i fyfyrwyr
- y gallu i annog myfyrwyr i ymgysylltu ag ysgoloriaeth ac astudio annibynnol (gan gynnwys ymwybyddiaeth o adnoddau).

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- gradd ôl-raddedig, profiad o ymchwilio a/neu gyhoeddiadau ym maes athroniaeth
- profiad o addysgu athroniaeth mewn sawl un o'r meysydd canlynol: estheteg, moeseg, athroniaeth wleidyddol, athroniaeth y meddwl ac epistemoleg
- cymhwyster addysgu neu achrediad gan yr Academi Addysg Uwch
- tystiolaeth o feddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am y pwnc

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

| | |
|--|----|
| Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus: | 60 |
| Nifer yr aseiniadau a gyflwynwyd gan y myfyriwr: | 5 |
| Dull cyflwyno aseiniadau: | 2 |
| Lefel y gofynion TGCh: | 2 |
| Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol: | 20 |
| Band cyflog: | 7 |
| Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu: | 6 |